**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CS/NG

15 Gorffennaf 2021

Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Cyng David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips a Owen Thomas

Annwyl Syr / Fadam

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 21 GORFFENNAF, 2021** am **1.00 PM**

Yn ddiffuant,

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we. Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

3 **SYLWADAU HWYR**

4 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 26 Mai 2021.

5 **EITEMAU I'W GOHIRIO**

6 **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

## ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI) AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 21 GORFFENNAF 2021

| Rhif yr eitem | Cyfeirnod y Ffeil | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| **Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (C = Cymeradwyaeth, G = Gwrthod)** | | |
| **6.1** | 052236 - G | Aminellol cynllunio - Cais Amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Atlas Yard, Ffordd Corwen, Pontybodkin (Tudalennau 9 - 26) |
| **6.2** | 062917 - C | Cais llawn - Codi estyniad ochr a llawr gwaelod i gefn 5 Alyndale Road, Saltney (Tudalennau 27 - 40) |
| **6.3** | 061294 - C | Cais llawn - Newid defnydd o annedd i dŷ mewn tŷ amlfeddiannaeth yn 7 Howard Street, Cei Connah (Tudalennau 41 - 52) |
| **6.4** | 062110 - C | Cais llawn - Gwaith echdynnu graddol o 28.38m o dunelli o galchfaen o fewn yr ardal ganiataol bresennol ac o fewn estyniad dwyreiniol y chwarel fel estyniad cynhwysfawr a chynllun cyfuno; cadw'r offer prosesu presennol ac isadeiledd cysylltiedig ar gyfer hyd y datblygiad; cadw a defnyddio'r mynediad presennol ar gyfer hyd y datblygiad; adeiladu a thirlunio tirffurf sgrinio; a gweithredu cynllun adfer ar gyfer y chwarel bresennol ac ardal estyniad yn Chwarel Hendre, Ffordd Dinbych, Rhydymwyn (Tudalennau 53 - 92) |
| **6.5** | 062300 - C | Amrywio/Dileu Amod - Cais i amrywio amod rhif 2 yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio cyf: 059514 yn hen Wersyll y De RAF Sealand, Ffordd y Cymry, Sealand (Tudalennau 93 - 100) |
| **6.6** | 060699 - C | Cais cynllunio amlinellol - Cais Amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer hyd at 18 o anheddau gan gynnwys ffurfio mynedfa newydd i gerbydau, systemau draenio, tirlunio a'r holl waith cysylltiedig arall yn Nhan-y-Bryn, Ffordd y Bryn, y Fflint (Tudalennau 101 - 118) |
| **6.7** | 060591 - C | Cais llawn - Newid defnydd tir ar gyfer 4 Llain Sipsiwn/Teithwyr ac 1 bloc amwynder / ystafell ddydd cymunedol ym Myngalo Tŷ Dŵr, Tanlan, Treffynnon (Tudalennau 119 - 136) |

***Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw'n para fwy na dwy awr***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home